2. Mae yna amrywiaeth o drefniadau gweithio hyblyg y gall y cyflogai a'r busnes eu hystyried. Cyn ymgeisio am newid eu patrwm gwaith, dylai'r cyflogai ystyried yn ofalus potensial yr effaith ar eu cyflog a thelerau ac amodau eraill (pethau fel gwyliau blynyddol a pensiwn).
3. Bydd pob cais yn cael ei ystyried yn unigol ar sail ei haeddiant ei hun ynghyd ag anghenion yr adran.
4. Cyfrifoldeb y rheolwr llinell a'r gweithiwr yw rheoli perthnasoedd gweithio hyblyg yn rhagweithiol, gan adolygu trefniadau gweithio hyblyg presennol yn rheolaidd i sicrhau bod y rhain yn parhau i fod yn effeithiol wrth ddiwallu anghenion y gweithiwr a'r BBC. Gall gweithwyr gyflwyno cais am weithio hyblyg naill ai'n anffurfiol neu'n ffurfiol.
5. Bydd y BBC yn rhoi ystyriaeth deg i bob cais i weithio yn hyblyg sy'n bosibl o dan y polisi hwn ond nid oes yna hawl awtomatig i drefniant gweithio'n hyblyg.

Cynnwys

| | |
|---|----|
| 1. Diffiniad | 22 |
| 2. Egwyddorion | 22 |
| 3. Mathau o weithio hyblyg | 22 |
| 4. Anghenion y BBC | 28 |
| 5. Ceisiadau a Chymhwysedd | 28 |
| 5.1. Ceisiadau anffurfiol..... | 28 |
| 5.2. Sut i wneud cais ffurfiol..... | 29 |
| 5.3. Cyfarfod i drafod y cais i weithio yn hyblyg | 30 |
| 5.4. Ystyried y cais..... | 31 |
| 5.5. Cadarnhau'r canlyniad | 32 |
| 5,6 Hawl i Apelio'r Penderfyniad | 33 |
| 5.7. Cyfnodau treial | 33 |
| 5.8. Trefniadau amgen neu dros-dro | 33 |
| 6. Cwynion a gwybodaeth bellach | 33 |

1. Diffiniad

Gweithio hyblyg yw unrhyw fath o drefniant gweithio sy'n rhoi rhywfaint o hyblyg ynghylch pa mor hir, yn lle a phryd y mae'r cyflogai'n gweithio.

Mae'r polisi hwn yn disgrifio'r amrywiaeth o opsiynau gweithio'n hyblyg y gall y BBC eu cynnig i'w gyflogai tra'n rhoi i'r BBC y sgôp a'r hyblygrwydd i addasu i'r galw cynyddol sydd am wasanaethau 24 awr y dydd.

2. Egwyddorion

Bydd y BBC yn rhoi ystyriaeth ddyledus i arferion gweithio hyblyg all fod yn fuddiol nid yn unig i'r sefydliad ond i'r cyflogai hefyd.

Mae'r opsiynau gweithio hyblyg yn cael eu hystyried i fod yn drefniadau eithaf arferol y bydd cyflogai yn gwneud cais amdanynt ond mae'r sefydliad yn cydnabod y gall trefniadau amgen neu gyfuniad o opsiynau allai fod yn addas i'r sefydliad a'r cyflogai:

- Gweithio rhan-amser
- Gweithio tymhorol
- Gweithio oriau gwasgaredig / gweithio hyblyg
- Oriau gweithio cywasgedig
- Gweithio oriau blynyddol
- Gweithio o bell
- Gweithio hybrid (ystwyth)
- Gweithio gartref yn barhaol
- Rhannu swydd
- Ymddeoliad hyblyg
- Seibiant gyrfa

3. Mathau o weithio hyblyg

1) Mae **gweithio oriau hyblyg** yn golygu unrhyw drefniant lle mae gan y cyflogai gontract i weithio hyd at 35 awr yr wythnos, ac eithrio seibiant gorffwys.

- Mae'r BBC yn credu y bydd pob swydd ar gael ar sail rhan-amser, ac eithrio os yw'r rheolwr llinell o'r farn na fyddai trefniant o'r fath yn ymarferol.
- Fel rhan o weithio rhan-amser, mae cyflog sylfaenol a thelerau ac amodau eraill fel gwyliau blynyddol yn cael eu diwygio ar sail pro rata.

- 2) Gweithio tymhorol** yw pan mae'r cyflogai'n gweithio yn ystod tymhorau ysgol yn unig ac yn cymryd amser i ffwrdd yn ystod unrhyw wyliau ysgol.
- Byddai unrhyw wyliau y mae'r cyflogai yn ei gymryd sy'n fwy na'i hawliad gwyliau blynyddol yn ddi-dal. Bydd cyfanswm hawliad gwyliau blynyddol y cyflogai'n cael eu ddefnyddio i allu cymryd rhywfaint o'r gwyliau hyn a bydd y cyflog yn cael ei ddiwygio ar sail pro rata er mwyn gallu ystyried y gwyliau blynyddol ychwanegol sydd ei angen. Yna, mae'r cyflog yn cael ei rannu dros gyfnod o 12 mis ac yn cael ei dalu ar ffurf rhandaliadau misol cyfartal.
- 3) Mae Oriau Gweithio Gwasgaredig / Oriau hyblyg** yn galluogi'r cyflogai i gytuno gyda'i reolwr ynghylch amrywio'r amser y mae e'n dechrau, gorffen, yr amser gorffwys, o fewn cyfyngiadau rhesymol. Er enghraifft, mae oriau gwaith yn amrywio o 10am i 6pm yn hytrach na 9am - 5pm, felly mae'r amseroedd cychwyn a gorffen penodol yn cael eu cytuno ar y cyd yn unol ag anghenion gweithredol neu amser hyblyg o weithio nifer set o oriau gyda'r amserau cychwyn a gorffen a ddewisir o fewn terfynau cytunedig gan y gweithiwr. Rhaid i unrhyw addasiadau i oriau gwaith gadw at y Rheoliadau Oriau Gwaith.
- Gall cytuno ar oriau gweithio gwasgaredig ar sail parhaol neu dros-dro; pob diwrnod o'r wythnos neu dim ond ar rai diwrnodau o'r wythnos. Mae'n rhaid gweithio oriau llawn y cytundeb yn ystod yr wythnos.
- 4) Oriau gweithio cywasgedig** yw pan mae'r cyflogai'n gweithio oriau eu cytundeb i gyd dros lai o ddyddiau'r wythnos, er enghraifft, byddai wythnos pum niwrnod yn cael ei chywasgu i wythnos pedwar diwrnod.
- Gall y trefniant hwn hefyd gael ei weithredu dros gyfnod hirach, er enghraifft, galluogi rhywun i weithio gwerth dwy wythnos o oriau dros gyfnod o 9 niwrnod hytrach na'r 10 diwrnod safonol.
 - Dyw'r opsiwn hwn ond yn addas os yw rôl y cyflogai yn caniatáu i'r gwaith gael ei wneud yn gynt neu'n hwyrach yn y dydd nag yn ystod oriau gweithio safonol. Mae rheolwyr hefyd yn gorfod ystyried pa swyddogaethau y gelid eu gwneud pan nad yw'r cyflogai yn y gwaith.
- 5) Oriau blynyddol** yw pan mae oriau contract y cyflogai yn cael eu cyfrifo fel cyfanswm yr oriau y bydd yn eu gweithio dros y flwyddyn, gan ganiatáu iddo weithio patrymau gweithio hyblyg trwy gydol y flwyddyn.
- Fel rheol, bydd yr oriau'n cael eu rhannu i oriau ar rota sy'n wedi'u pennu ac oriau nad ydynt wedi cael eu pennu, pan fydd y cyflogai'n cael ei alw i'r gwaith

os bydd y rôl yn gofyn am hynny (ac i helpu gydag unrhyw waith sydd heb ei gynllunio ar ei gyfer ac absenoldebau cyflogeion eraill). Fel arfer, telir y cyflog mewn 12 rhandaliad cyfartal.

6) Gweithio o bell yw'r term a ddefnyddir am gyflogai sydd ddim yn gweithio yn eu swyddfa BBC agosaf un ai am un o'r rhesymau canlynol:

- achlysurol - lle mae ganddynt brif swyddfa yn y swyddfa gyda rhywfaint o waith anghysbell naill ai gartref neu mewn lleoliad nad yw'n BBC, cyfeiriwch at y gwaith achlysurol o ganllawiau cartref i gael rhagor o wybodaeth, yn ôl ei natur gall achlysurol gweithio o gartref cytuno'n anffurfiol;
- yn rheolaidd – lle mae trefniant wedi'i wneud iddyn nhw weithio o'r tŷ am nifer penodedig o ddyddiau'r wythnos a gweddill yr amser yn eu swyddfa agosaf;
- sail gytundebol parhaol – pan gytunir mai cartref y cyflogai yw ei brif weithle, ni fydd gan y cyflogai leoliad swyddfa BBC penodedig a daw'n weithiwr cartref parhaol (gweler adran 9).
- newidiad cytundebol i leoliad sylfaen – lle mae cyflogai yn gofyn am newid lleoliad ei sylfaen gytundebol i swyddfa arall yn y BBC

Rhaid i weithwyr ar gontractau yn y DU weithio o bell yn y DU oni bai bod eu rol yn wneud yn ofynnol iddynt weithio'n dramor. Lle mae angen gwaith tramor fel rhan o rol, bydd hwn nail ai'n Aseiniad Rhyngwladol neu'n Ddefnydd Tramor.

Os dymunwch wneud cais i weithio o bell dramor yn ol disgresiwn, nodir y broses hwn yn Adran 8.

7) Gweithio'n hybrid yw'r term a defnyddir i adlewyrchu'r gallu i weithio mewn ffordd sy'n bodloni gofynion y rol orau, a all gynnwys gweithio o bell.

Mae gan dîmau Arweinyddiau Is-adrannol yr ymreolaeth i benderfynu ar y ffordd orau i'w timau i gydweithio efo hyblygrwydd i'r staff sydd wneud synnwyr busnes.

Gweithio'n hybrid yw drefniant anffurfiol a fydd yn esblygu efo anghenion y busnes. Bydd pobl rol yn dynodedig fel 'Swyddfa' neu'n 'Ystwyth' ac nad yw'n newid ofynion cytundebol na leoliad syflaenol unrhywun:

Swyddfa- wedi'i gontractio i un o ganolfannau'r BBC lle mae angen offer arbenigol ac mae gwaith yn gysylltiedig a darparu ar y safle, boed yn y swyddfa neu'r cynhyrchiad.

Ystwyth- wedi'i gontractio i un o ganolfannau'r BBC lle gwneir rhywfaint o waith a gellir gwneud rhywfaint o waith o bell.

Mae gweithio hybrid yn wahanol i gais ffurfiol i weithio'n hyblyg ble allech chi ofyn i newid eich dermau cytundebol, fel yr oriau a dyddiau rydych chi fel arfer yn gweithio.

Mae gweithio'n ystwyth yn newid sydd ddim yn gytundebol oherwydd nad oes unrhyw newid i sylfaen gytundebol y gweithwr. Cytunir yn anffurfiol y lefelau ystwythder o ran oriau gwaith, diwrnodau a leoliad yn unol a chynlluniau adrannol gan bob Arweinydd Tîm a gweithiwr. Bydd hwn yn amrwyio efo pob tîm penodol, rol a thasgau sydd angen cael ei cyflawni. Gall ble a phryd y byddwch yn gweithio amrywio yn unol a gofynion busnes a cheisiadau unigol, ac nid yw'n cael ei ystyried fel patrwm gweithio hyblyg diffiniedig.

8) Gweithio'n Bell o Dramor yw ble mae gweithwr yn gallu mynd trwy'r Arweinydd Tîm i weithio am amser fach o dramor. Mae hwn yn gael ei wneud lan o 20 diwrnod gwaith mewn blwyddyn. Pan fo angen y busnes i weithio'n dramor fel rhan o rol, bydd hwn yn Aseiniad Rhyngwladol neu Deployment Tramor.

Mae'r canlynol yn berthnasol:

1. Rhaid i gais gan weithiwr fod yn ymarferol h.y gellir cyflawni dyletswyddau yn foddhaol
2. Cais ffurfiol i'w gyflwyno i [AD y BBC](#) ddim llai na 10 diwrnod gweithio cyn y daith
3. Rhaid i'r gweithiwr ddarparu'r holl dogfennau hawl i weithio berthnasol ar adeg cyflwyno
4. Rhaid cael cymeradwyaeth gan anibenigwyr Mewnfudio BBC HR a threthau cyn i'r teithio dechrau.

Er mwyn cwrdd â'r meini prawf lleiafswm o 10 diwrnod, bydd dyddiadau cau lleol gwahanol i alluogi Arweinwyr Tîm i gwblhau'r asesiad gweithredol. Bydd y dyddiad cau hwn yn ystyried amserlenni a chynllunio gwyliau blynyddol lleol. Bydd yr Arweinydd Tîm yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r gweithiwr ar eu penderfyniad i symud ymlaen neu wrthod y cais ar yr adeg yma.

Cydnabyddir efallai na fydd Arweinwyr Tîm yn gallu darparu ar gyfer addasiadau posibl i amserlenni neu ddyletswyddau gweithwyr i gyflawni eu rolau'n foddhaol dramor ac o dan yr amgylchiadau hyn ni all y gweithio dramor ddigwydd o bell.

Mae gweithwyr yn gyfrifol am sicrhau eu bod yn darparu tystiolaeth o yswiriant teithio a meddygol priodol, ac yn gwneud gwaith yn unol â pholisïau'r BBC, yn enwedig y gofynion o dan bolisiau diogelwch a chyfrinachedd gwybodaeth, a diogelu data.

Os bydd Arweinydd Tîm yn ystyried bod y cais yn weithredol ymarferol, rhaid iddo gyflwyno'r profforma Gweithio o Bell Dramor trwy [Gateway](#) ar gyfer asesiad arbenigol gan y tîm Mewnfudo a Threth. Rhaid i hyn gynnwys y ddogfennau berthnasol sydd ei hangen a chael ei chyflwyno **ddim llai na 10 diwrnod gwaith cyn y daith arfaethedig**.

Dim ond lle cafwyd cytundeb penodol gan AD y BBC ar ôl cael ei asesu gan ein timau arbenigol mewnfudo a threth y gellir Gweithio o Bell Dramor.

- 9) Mae gweithio gartref yn barhaol** yn berthnasol pan mai cartref y gweithiwr yw ei leoliad gwaith. Ar gyfer gweithiwr yn y DU, cyfeiriad preswyl y gweithiwr yn y DU fydd hwn fel arfer. Bydd adegau pan fydd gofyn i weithwyr fynd i gyfarfodydd neu ddigwyddiadau yn lleoliadau'r BBC er mwyn cyflawni agweddau ar eu swydd. Pan fydd angen teithio, bydd costau rhesymol yn cael eu talu ar gyfer teithiau o'ch cartref (y lleoliad gwaith dan gontract) i leoliad y BBC.

Ni fydd gan weithwyr sy'n gweithio gartref yn barhaol ddesg na storfa bersonol yn un o leoliadau'r BBC fel mater o drefn. Rhaid iddynt fod â chyfleusterau priodol gartref i reoli offer a gwybodaeth y BBC yn unol â GDPR a darpariaethau statudol a pholisïau eraill y BBC, fel y [Polisi Diogelwch Dyfeisiau Symudol a Gweithio o Bell](#).

Gellir gweithio gartref yn barhaol o'r cychwyn cyntaf gyda rhai swyddi/swyddogaethau. Bydd gweithwyr sy'n gwneud cais am swydd lle maent yn gweithio gartref yn barhaol yn cwblhau asesiad 'Cartref' i sicrhau bod modd bodloni'r gofynion iechyd a diogelwch penodol cyn cael eu penodi.

Pan fydd cyflogai yn gofyn am gais i weithio gartref yn barhaol am gyfnod penodol neu fel newid cytundebol parhaol, rhaid cynnal 'asesiad o'r weithfan' yn unol ag anghenion unigol, cyfrifoldebau'r swydd a chydawnsedd ag amserlennu timau yn gyffredinol.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i [Gateway](#).

Er bod y BBC yn cydnabod y gall gweithio gartref fod o fudd i weithwyr sydd â chyfrifoldebau gofal domestig, ni ddylid ei ddefnyddio yn lle trefniadau gofal digonol. Wrth weithio gartref, rhaid i weithwyr sicrhau eu bod wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer gofalu am eu dibynyddion.

10) Rhannu swydd yw trefniant pan mae swydd llawn-amser yn cael ei rhannu yn ddwy swydd ran-amser. Yna, bydd dau gyflogai'n rhannu'r dyletswyddau a chyfrifoldebau cyffredinol y swydd. Mae'n rhaid i'r sgiliau a'r oriau y mae pob cyflogai yn dymuno eu gweithio gyd-fynd neu ategu at y rôl, a diwallu anghenion y sefydliad.

- Mae pobl sy'n rhannu swydd yn cael eu cyflogi o dan amodau rhan-amser ac mae'r trefniant yn galw am lefel uchel o gydweithio gan y ddau sy'n rhannu'r swydd. Ni ddylid effeithio ar lif nag ansawdd cyffredinol y swydd gan y cyflogai sy'n gweithio ar unrhyw amser. Dylid cytuno ar lefel a natur y cydweithio a ddisgwylir rhwng y sawl sy'n rhannu'r swydd fel rhan o drefniant pob sefyllfa rhannu swydd.
- Gyda threfniant rhannu swydd, gall y rheolwr benderfynu bod yn rhaid i bob cyflogai allu cyflawni amrywiaeth llawn dyletswyddau'r swydd neu fod â sgiliau ategol, er mwyn sicrhau bod amrywiaeth llawn o ddyletswyddau'r swydd yn cael eu cwblhau'n llwyddiannus rhwng y ddau sy'n rhannu'r swydd.
- dan y polisi hwn, gall cyflogai wneud cais heb adnabod partner rhannu swydd posibl eu hunain.
- Mae gan y rheolwyr y dewis i un ai ffurfioli un rhan o'r trefniant rhannu swydd cyn dod o hyd i bartner addas, neu, i aros nes bod y partner rhannu swydd wedi cael ei ddewis trwy broses recriwtio'r BBC.
- Hefyd, gellir dod â'r trefniant i ben os oes un o'r partneriaid yn cymryd swydd arall neu'n gadael y BBC. Os oes un partner rhannu yn gadael yna bydd y partner arall yn cael cynnig y swydd ar sail llawn-amser. Os nad yw'r cyflogai'n gallu derbyn y swydd ar sail llawn-amser, bydd y rheolwr yn cynnal ymarfer recriwtio i ddod o hyd i bartner addas i gymryd ei le.

11) Mae ymddeoliad hyblyg yn galluogi aelodau Cynllun Pensiwn y BBC i wneud cais am ymddeoliad hyblyg (cyhyd â'u bod yn gymwys) a gwneud cais i gael eu pensiwn wedi'i dalu wrth barhau i weithio yn y BBC. Gelwir hyn yn 'daliad hyblyg' ac mae'n bosibl cyhyd â bod y BBC yn cytuno. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn ['Canllaw i Daliad Hyblyg - ar gyfer Aelodau Hen a Newydd y BBC'](#). Os yw'r gweithiwr, fel rhan o'r broses hon, yn dymuno newid ei drefniadau gweithio, gallant gyflwyno ffurflen gais am waith hyblyg. Os yw'r gweithiwr yn ystyried ymddeoliad hyblyg, fe'u hanogir i ddechrau trafodaethau cyn gynted â phosibl gyda'i reolwr.

- 12) Mae **Seibiant gyrfa** yn rhoi cyfle i gyflogai wneud cais am gyfnod estynedig o wyliau di-dal gyda'r posibilrwydd o ddychwelyd i'r un swydd, swydd debyg neu i ymgeisio am rôl fewnol (yn ddibynnol ar hyd a chategori'r seibiant gyrfa). Mae manylion penodol am ofynion cymhwysedd ar gael yn y [Polisi ar Seibiant Gyrfa](#).

4. Anghenion y BBC

Mae'r BBC wedi ymrwymo i ddarparu amrywiaeth o batrymau gweithio priodol a bydd yn rhoi ystyriaeth lawn i unrhyw geisiadau i weithio'n hyblyg a wneir fel rhan o'r polisi hwn. Fodd bynnag, nid oes yna hawl awtomatig i drefniadau gweithio hyblyg.

5. Ceisiadau a Chymhwysedd

Argymhellir bod cais i weithio'n hyblyg yn dechrau fel **sgwrs anffurfiol** rhwng yr aelod o staff sy'n dymuno gwneud cais am drefniant gweithio'n hyblyg a'i reolwr. Bydd trafodaethau cynnar, cyn gwneud cais, yn caniatáu i'r ddau barti archwilio'r opsiynau ymarferol sydd ar gael iddynt yn anffurfiol, yn ogystal â sut gallai'r patrwm gweithio arfaethedig effeithio ar y tîm a'r adran.

Pan fydd y sgysiau cychwynnol hyn yn digwydd, gall yr aelod o staff a'r rheolwr benderfynu gyda'i gilydd a ddylid bwrw ymlaen â hwn fel cais ffurfiol neu anffurfiol, yn seiliedig ar y meini prawf cymhwysedd, hyd y cais a'r hyblygrwydd y gwneir cais amdano.

Gellir ystyried gweithio hyblyg neu hybrid yn unol ag unrhyw swydd a hysbysebwr ar gyfer gweithwyr newydd sy'n ymuno â'r BBC, yn ogystal ag ymgeiswyr mewnol.

Mae unrhyw weithiwr (parhaol neu gyfnod penodol) yn gymwys i wneud un cais ffurfiol i weithio'n hyblyg o fewn cyfnod o 12 mis. Bydd angen i bob cais sy'n arwain at newid cytundeb a / neu gyflog gael ei gyflwyno'n ffurfiol. Os gwrthodir cais ffurfiol i weithio'n hyblyg, gellir ystyried addasu'r cais gwreiddiol o fewn y 12 mis i'w ailystyried. Mae rhagor o wybodaeth am 'wneud cais' ar gael drwy'r Pecyn Cymorth ar Gateway.

5.1. Ceisiadau anffurfiol

Os yw gweithiwr yn chwilio am drefniant anffurfiol ar gyfer addasiadau tymor byr neu drefniadau gweithio nad ydynt dan gontract. Gellir cynnwys y cytundeb hwn ar PeopleView.

Hefyd, efallai na fydd natur y cais golygu bod angen ffurflen gais ffurfiol ar gyfer gweithio'n hyblyg. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys cyflogeion sy'n dymuno addasu amser dechrau/gorffen eu diwrnod gwaith dros dro (heb newid cyflogaeth amser llawn, neu FTE) neu weithio gartref yn achlusurol. Lle mae modd gwneud addasiadau bach a dros dro, gall rheolwr ddewis cytuno'n anffurfiol i gais gweithio'n hyblyg. Pan fydd hyn yn digwydd, mae'n arfer da cadarnhau'n ysgrifenedig yr hyn y cytunwyd arno'n anffurfiol (ee, drwy e-bost). Ni fydd trefniant anffurfiol – er enghraifft, lle mae gweithiwr yn gofyn am gael gweithio gartref ar ddydd Gwener am y mis nesaf i helpu gyda gofal plant – yn golygu y bydd newid cytundebol neu newid mewn cyflog. Lle mae gofyniad parhaus am newid cytundebol a/neu newid mewn cyflog, yna bydd angen gwneud cais ffurfiol. Ar gyfer trefniadau gweithio'n ystwyth, bydd Arweinydd Tîm yn diweddarau statws gweithio hybrid gweithiwr ar PeopleView.

5.2. Sut i wneud cais ffurfiol

Dylai'r cyflogai gwblhau'r cais ar y ffurflen ymgeisio am weithio yn hyblyg sydd ar Gateway AD a'i hanfon at eu rheolwr, yn ddelfrydol, o leiaf tri mis cyn dyddiad dechrau'r patrwm gwaith newydd. Mae'n bosibl y byddai'n ddefnyddiol i'r cyflogai gael sgwrs gychwynnol anffurfiol gyda'r rheolwr cyn cyflwyno eu cais ynghylch cadarnhau'r meini prawf cymhwysedd, opsiynau posibl sydd ar gael i'r ddau barti a sut byddai'r patrwm gwaith arfaethedig yn effeithio ar y tîm a'r adran.

Gellir dod o hyd i'r ffurflen gais gweithio yn hyblyg ar Gateway AD o dan y Polisi Gweithio yn Hyblyg. Gofynnir y cwestiynau canlynol i'r cyflogai:

- y newidiadau y mae'r cyflogai yn eu ceisio i'r telerau ac amodau
- y dyddiad y mae'r cyflogai'n dymuno i'r newid arfaethedig ddod i rym
- pa effaith y mae'r cyflogai yn credu y bydd y newid a geisir yn ei gael ar y tîm
- sut, yn eu barn hwy, y gellir dygymod ag effaith newid o'r fath

Os yw'r cyflogai'n gwneud y cais mewn perthynas â'r Ddeddf Cydraddoldeb 2010, e.e. fel diwygiad rhesymol ynghylch anabledd, yna dylid nodi hyn yn glir yn y cais.

Cyn ymgeisio, dylai'r cyflogai ystyried yn ofalus yr effaith y gallai newid o'r fath ei gael ar eu cyflog neu delerau ac amodau eraill (pethau fel gwyliau blynyddol a phensiwn). Gall cyflogai gael cadarnhad o'r telerau a'r amodau diwygiedig gan Ganolfan Wasanaethau AD y BBC. Cynghorir cyflogai i ddarllen eu llawlyfr Cynllun Pensiwn y BBC neu i gysylltu â'r Adran bensiynau trwy e-bostio

mypension@bbc.co.uk i gael gwybodaeth am yr effaith y gall gwahanol fathau o weithio hyblyg gael ar eu pensiwn.

Mae dyletswydd cyfreithiol ar y BBC i ymdrin ag unrhyw geisiadau i weithio yn hyblyg o fewn cyfnod o 3 mis o'r dyddiad y derbynnir cais y cyflogai i'w hysbysu o ganlyniad i unrhyw apêl sydd wedi'i gyflwyno yn erbyn y penderfyniad. Mae modd ymestyn y cyfyngiad amser os mae'r rheolwr yn cytuno i wneud hynny gyda'r cyflogai.

Er gwaethaf canlyniad y cais anffurfiol, mae gan y cyflogai sy'n diwallu'r meini prawf cymhwysedd yr hawl i gyflwyno cais ffurfiol i weithio yn hyblyg.

5.3. Cyfarfod i drafod y cais i weithio yn hyblyg

Bydd y rheolwr yn trefnu cyfarfod gyda'r cyflogai i drafod y cais. Cynhelir y cyfarfod hwn cyn gynted â phosibl ar ôl derbyn y cais, oni bai bod y sawl sy'n cyflwyno'r cais yn absennol neu fe gytunir ar estyniad am ryw reswm arall gyda'r cyflogai.

Dyma bwrpas y cyfarfod:

- trafod y cais
- trafod y trefniadau gweithio arfaethedig yn drwyadl
- sut y gall fod o fudd i'r cyflogai a'r adran
- beth fyddai'r ffordd orau o'i roi ar waith
- deall unrhyw oblygiadau cytundebol

Mae hefyd yn rhoi cyfle i ystyried unrhyw batrymau gweithio amgen os oes anawsterau'n deillio o'r patrwm arfaethedig.

Bydd pob cais yn cael ei drin yn unigol, gan ystyried yr effeithiau y bydd y newidiadau arfaethedig yn debygol o'u cael ar y cyflogai, gwaith yr adran a gwaith cydweithwyr y cyflogai.

Wrth ystyried y cais a'r gofynion busnes cysylltiedig, ni ddylid gwahaniaethu yn erbyn y cyflogai ar sail nodweddion wedi'u diogelu fel y rheini sydd wedi'u nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010, e.e. crefydd, cais i weithio yn hyblyg er mwyn mynd i wyliau crefyddol.

Os mae newidiadau rhesymol yn cael eu hargymell yn dilyn atgyfeiriad gan yr adran Iechyd Galwedigaethol, fe gytunir ar yr argymhellion lle bynnag bo'n bosibl yn unol â dyletswyddau y BBC sydd wedi'u nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010. Mae'n bosibl y cytunir ar weithio yn hyblyg y tu allan i'r polisi hwn ac fe anogir

defnyddio'r dull hwn os oes perygl y bydd y broses ffurfiol yn rhoi at straen ychwanegol ar y cyflogai.

Mae gan y cyflogai'r hawl i gael cwmni yn y cyfarfodydd gan gynrychiolydd cymwys o undeb lafur neu gyflogai'r BBC (ac eithrio cyfreithiwr wrth ei waith). Os nad yw'r cyflogai'n gallu mynd i'r cyfarfod nag i gyfarfod a gaiff ei aildrefnu ar ei gyfer a heb unrhyw reswm dros hynny, gall y rheolwr ystyried bod y cyflogai wedi tynnu'r cais yn ôl. Fodd bynnag, dylai'r rheolwr roi cyfle i'r cyflogai roi rhesymau dros fethu â mynd i'r cyfarfodydd ac ysgrifennu at y cyflogai gyda'i benderfyniad.

Hefyd, o dan y broses ffurfiol, dylai'r cyflogai fod yn ymwybodol y bydd y trefniadau gwaith newydd yn cael eu rhoi ar waith yn barhaol fel amrywiaeth parhaus i delerau ac amodau eu cyflogaeth. Ni fydd yna hawl awtomatig i ddychwelyd at y patrwm gweithio blaenorol.

5.4. Ystyried y cais

Os yw trefniant gweithio yn hyblyg yn cael ei gynnig, bydd yn rhaid i'r BBC ystyried nifer o feini prawf gan gynnwys (ond ddim yn gyfyngedig) i'r canlynol:

- y costau sy'n gysylltiedig â'r trefniant arfaethedig
- effeithiau'r trefniant arfaethedig ar staff eraill
- yr angen am, a'r effaith ar, oruchwyliaeth
- strwythur bresennol yr adran
- y staff sydd ar gael
- manylion y tasgau sy'n benodol i'r swydd
- y llwyth gwaith sy'n gysylltiedig â'r swydd
- a yw'n gais rhesymol am addasiad mewn perthynas ag anabledd
- materion iechyd a diogelwch

Er mwyn sicrhau cysondeb ym mhob maes, bydd pob cais yn cael ei ystyried ar sail ei haeddiant ei hunan ar y cyd ag anghenion yr adran. O gytuno ar gais patrwm gwaith un cyflogai, mae'n bwysig cofio na fydd y BBC yn gosod cynsail nag yn caniatáu i'r un newid neu newid tebyg gael ei wneud i gais cyflogai arall.

Cyfrifoldeb y rheolwr a'r cyflogai yw ystyried, asesu a gwerthuso'r goblygiadau posibl ar y busnes o roi trefniadau gweithio yn hyblyg ar waith a'r effaith posibl ar gostau, gwasanaethau a gallu'r adran i ddiwallu ei hamcanion.

Cyfrifoldeb y rheolwr a'r cyflogai yw rheoli'n rhagweithiol gysylltiadau gweithio yn hyblyg. Dylid adolygu trefniadau gweithio yn hyblyg cyfredol yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ddiwallu anghenion y BBC a'r cyflogai.

Bydd y BBC yn ceisio sicrhau nad yw un cyflogai yn cael ei drin yn llai ffafriol na'r llall, nac yn cael cam nag yn cael ei ddiswyddo oherwydd ei gais am neu am ddewis i weithio yn hyblyg.

Mae'n rhaid i unrhyw drefniadau gweithio yn hyblyg y cytunir arnynt gydymffurfio â Rheoliadau Amser Gwaith (1998). I gael rhagor o wybodaeth, darllenwch ['Y Canllaw i'r Rheoliadau Amser Gwaith'](#) ar Gateway.

5.5. Cadarnhau'r canlyniad

Unwaith y penderfynir os gellir cytuno'n rhesymol ar y cais, mae yna dri opsiwn ar gael i'r rheolwr:

- i) i gymeradwyo'r cais yn llawn,
- ii) i gymeradwyo'r cais yn rhannol neu
- iii) i wrthod y cais. Os caiff y cais ei wrthod neu ei gymeradwyo'n rhannol yn unig, mae'n rhaid i'r BBC roi un o'r rhesymau dros y penderfyniad a amlinellir yn yr adran 'Ystyried y cais' ac egluro pam bod yn rhesymau hyn – o dan yr amgylchiadau - yn berthnasol.

Os yw'r cais yn cynnwys newid i gontract neu gyflog y cyflogai, bydd hyn yn cael ei amlinellu yn y llythyr. Byddai hyn yn creu cynsail i greu newid parhaol i'r telerau ac amodau gwaith, oni bai y cytunir arnynt fel arall, e.e. am gyfnod treial neu fel trefniant dros-dro gyda chyfnod amser wedi'i gytuno arno (gyda hyd at dri mis ar gyfer cyfnodau treial a deuddeg mis ar gyfer cyfnodau dros-dro).

Os oes gan y gweithiwr unrhyw gwestiynau neu bryderon ynghylch eu contract cyflogaeth newydd, dylent gysylltu â'u rheolwr i drafod y mater ymhellach.

5.6 Hawl i Apelio'r Penderfyniad

Mae gan y cyflogai hawl i apelio'r penderfyniad a wneir ynghylch eu cais ffurfiol i wneud newidiadau cytundebol os yw eu cais yn cael i wrthod neu dim ond ar ran ohono y cytunir. Mae'n rhaid i apêl gael ei gyflwyno o fewn 14 niwrnod calendr o ddyddiad y llythyr yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dylid hyn gael ei wneud yn ysgrifenedig gan nodi'n glir y rhesymau pam bod y cyflogai'n apelio'r penderfyniad.

Bydd cyfarfod yr apêl yn cael ei gynnal gan reolwr mwy uwch na'r rheolwr a wnaeth y penderfyniad gwreiddiol ynghylch gweithio yn hyblyg, oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn golygu nad yw hynny'n ymarferol.

Gall y cyflogai ddod a chynrychiolydd cymwys o Undeb Llafur neu gyflogai o'r BBC gydag ef (er ni all fod yn gyfreithiwr wrth ei waith).

5.7 Cyfnodau treial

Gall y BBC gynnig cyfnod treial yn y lle cyntaf er mwyn sicrhau bod y trefniadau newydd yn diwallu anghenion y cyflogai a/neu'r busnes. Yn yr un modd gall y gweithiwr awgrymu cyfnod prawf trwy sgwrs gyda'i reolwr i gytuno arno.

Ni ddylai cyfnodau treial bara ddim hirach na thri mis. Os yn llwyddiannus, byddai'r newid yn cael ei roi ar waith fel newid parhaus i'r contract. Os, fodd bynnag, yn ystod y treial, nid yw'r trefniant gweithio yn hyblyg yn addas, dylai'r rheolwr a'r cyflogai ystyried opsiynau eraill i weithio yn hyblyg. Os na ellir cytuno ar hyn, bydd y cyflogai'n dychwelyd i'r trefniadau gweithio arferol.

5.8 Trefniadau amgen neu dros-dro

Os bydd y BBC yn gwrthod cais oherwydd un o'r rhesymau a amlinellir yn adran 5.4, gall un ai gynnig trefniant gweithio parhaus amgen; a/neu, mewn sefyllfaoedd lle y gellir cytuno ar gyfnod byrrach neu hirach a fyddai'n diwallu anghenion y cyflogai, gall y BBC gynnig amrywiaeth am gyfnod dros-dro - cyn belled â bod y trefniant yn cael ei adolygu'n barhaus. Bydd trefniant o'r fath yn cael ei gadarnhau yn ysgrifenedig.

Ni ddylai cyfnodau dros-dro bara ddim hirach na deuddeg mis. Os, yn ystod y cyfnod dros-dro, penderfynir nad yw'r trefniant gweithio yn hyblyg yn addas, dylai'r rheolwr a'r cyflogai ystyried opsiynau eraill i weithio yn hyblyg. Os na ellir cytuno ar hyn, bydd y cyflogai'n dychwelyd i'r trefniadau gweithio arferol. Os yn llwyddiannus, gellir rhoi'r amrywiad ar waith fel newid parhaus i'r contract.

6. Cwynion a gwybodaeth bellach

Mae'r BBC yn anghytuno'n gryf ag unrhyw ffurf o erlid ar unigolion sy'n gweithio, neu sy'n gwneud cais i weithio, yn hyblyg.

Os yw'r cyflogai'n teimlo eu bod wedi cael eu trin yn annheg neu eu bod yn anfodlon gydag unrhyw gam o'r broses i wneud cais i gael gweithio yn hyblyg, yna dylen nhw drafod eu pryderon yn anffurfiol gyda'u rheolwr a/neu AD.

Os nad oes modd datrys y mater yn dilyn trafodaethau anffurfiol, yna dylen nhw godi eu cwyn gyda gweithdrefnau cwyno'r BBC.

I gael rhagor o wybodaeth, dylai'r cyflogai ddarllen y dogfennau a restrir isod a/neu gysylltu â Gateway AD.Y gyfraith sy'n ymwneud â'r ddogfen hon:

- Deddf Hawliau Cyflogaeth 1996
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Trefniadau Gweithio Hyblyg 2014